# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 5ed o Fehefin 2025 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Llanystumdwy a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

1. **Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.**

**Yn bresennol** y Cynghorwyr (Cadeirydd) Anwen Jones, Sian Angharad Parry, Aled Davies, Dylan Thomas, Miriam Williams, Rhys Tudur, Dewi Thomas, Euros Jones, Angela Williams, Angharad Llwyd-Jones a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Aled Evans, Delyth Parry, Tegid Jones a Darren Morley.

2. **Croesawu'r Cynghorydd Angharad Llwyd-Jones ar Ward Llanarmon.**

3. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod blynyddol 1af o Fai 2025.**

4. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mai 2025.**

5. **Datgan buddiant personol -neb.**

6. **Un Llais Cymru**

a) **Cynhadledd Arfer Arloesol, Llanelwedd, 02.07.2025** – thema'r gynhadledd fydd 'Cynllunio Ymlaen ar gyfer Dyfodol Heriol.' Bydd Jayne Bryant, Ysgrifennydd Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol yn agor y Gynhadledd, a bydd nifer o fudiadau eraill yn rhoi cyfle i gynadleddwyr gael gwybodaeth o bob math fydd yn gymorth i ddatblygu cynlluniau ar lefel leol i gefnogi ein cymunedau**. Gofynwyd i'r Clerc holi os ydi'n bosib ymuno'n rhithiol, a chael copi o'r wybodaeth a drafodwyd.**

b) **Swyddog Datblygu Gogledd Cymru, Un Llais Cymru newydd** sef Katherine Brown sydd wedi cymryd drosodd gan Mel ab Owain. Roedd yn gyn Glerc Caernarfon tan 2019.

**Materion gan Cyngor Gwynedd**

7. **Cais cynllunio sydd angen penderfyniad**

**C25/0342/41/DT - Haulfryn, 1 Bro Sion Wyn, Chwilog** – estyniad unllawr to fflat newydd. **Cefnogi.**

8. **Clybiau Ieuenctid Cymunedol.**

Gwybodaeth gan Steffan Williams, Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid, Cyngor Gwynedd yn cynnig sefydlu, neu ail sefydlu Clwb Ieuenctid yn yr ardal i bobl ifanc rhwng 11-18 oed am 30 wythnos o'r flwyddyn. Byddai angen i'r Cyngor Cymuned gyfrannu at y gost o gynnal y clwb. Gofynwyd i'r Clerc holi os byddai'n barod i gynnal sgwrs i egluro mwy am y mater.

9. **Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref a Chymuned**
Derbyniwyd ebost gan Alys Jones, Swyddog Prosiect Adfywio Trefi, Cyngor Gwynedd, yn cynnig uchafswm o £6.500.00 i Cyngor Cymuned Llanystumdwy. (a phob cymuned arall yng Ngwynedd). Y pwrpas fyddai i ddatblygu cynlluniau sydd yn gwella ei cymuned, drwy edrychiad, cyfleusterau a bwrlwm trefi a phentrefi Gwynedd. Enghreifftau o hyn fyddai:-

- Cyfraniad tuag at ddigwyddiadau.
- Prosiectau gwella amgylchedd/harddu.
- Offer neu welliant i barciau/ardaloedd gwyrdd/cyfleusterau.
- Deunydd marchnata a/neu hyrwyddo lleol.
- Cynlluniau Celf Cyhoeddus.
- Cynlluniau dehongli treftadaeth/diwylliannol.

Ni ellir gefnogi'r rhestr isod drwy'r Gronfa:-

- Gweithgaredd sydd yn hyrwyddo crefydd.
- Talu benthygiad.
- Costau arferol cynnal a chadw offer, tiroedd ac adeiladau.
- Costau cyflogi swyddi.
- Gweithgareddau sydd yn cael eu cynnal y tu allan i ffiniau y Cyngor Cymuned.
- Dyraniadau ar ffurf grant/rhodd i unigolion/sefydliadau/cwmniau.
- Costau craidd Cyngor Cymuned fel yswiriant.

Bydd angen cwblhau ffurflen gais, erbyn 31.07.2025, a bydd angen gwario a chwblhau y gwaith erbyn 31.12.2025. **Cynigiwyd y byddai'n bosib glanhau cerrig beddi enwogion yr ardal, creu hysbysfwrdd Eifion Wyn/Lón Goed, ac efallai gael mwy o arwyddion llechi ar weddill pontydd yr ardal. Y Clerc i wneud ymholiadau erbyn y cyfarfod nesaf.**

10. **Creu llwybr cyhoeddus newydd.**

Derbyniwyd gwybodaeth gan Rhys Roberts, Swyddog Arfordir Cymru, Cyngor Gwynedd yn dweud ei bod yn bwriadu creu llwybr arfaethedig newydd rhwng Swn y Don, Afonwen i Ty'n y Morfa, Llanystumdwy. **Cefnogi'r llwybr newydd.**

**Materion yn y gymuned**.

11. **Llanystumdwy**
a) **Safle ger Maes Llwyd, Llanystumdwy** - cais gan Cymdeithas Tai Gogledd Cymru i gael enw ar y safle ar gyfer y 6 tŷ fforddiadwy sydd yn cael ei adeiladu yno. Mae'r Cynghorydd Miriam Williams wedi trefnu mynd i Ysgol Llanystumdwy i drafod y mater hefo'r plant i ddewis enw.

12. **Rhoslan/Ynys**
13. **Chwilog**
14. **Pencaenewydd/Sardis**
15. **Llangybi – angen holi am bris i lanhau y matiau duon hefo 'glanhawr pwerus'.**

16. **Hysbysfyrddau angen staen arnynt** – bydd yr un sydd ym Mhencaenewydd a Llangybi wedi cael ei peintio erbyn mis nesaf.

17. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.05.2025. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

18. **Archwilio mewnol** - Y Clerc wedi anfon y manylion angenrheidiol a'r datganiad cyfrifo/ Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w cymeradwyo gan yr archwilwyr mewnol, ac yn disgwyl ymateb ganddynt.

19. **Costau a threuliau Cynghorwyr** – gall pob aelod hawlio un ai £156 y flwyddyn (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol (yn cynnwys costau i wneud eu ról), neu £52.00 am gostau ffón, band eang ac ati sy'n gysylltiedig â gweithio gartref. **Roedd y Clerc wedi anfon ffurflen at bawb cyn y cyfarfod i wneud cais amdano, neu gellir dewis ei wrthod.**

20. **Pwyllgorau amrywiol Cyngor Cymuned Llanystumdwy** – cytunodd y Cynghorydd Dewi Thomas i fod ar y Pwyllgor Cynllun Busnes/Cyllid a'r Cynghorydd Angharad Llwyd-Jones ar y Pwyllgor Rheolau Sefydlog a Pholisiau.

21. **Gwaith ar y llwybrau, Mai 2025 ymlaen**.

Cadw safle bedd D. Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor Mai 2025 – Mai 2026. Y Clerc wedi cael pris gan Mr Gareth Jones, a oedd yn arfer gofalu amdano rai blynyddoedd yn nol, ac fe gytunwyd i ofyn wrtho wneud y gwaith am y flwyddyn.

22. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw** | Rheswm | Pris<br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Zurich Municipal | Yswiriant Cyngor Cymuned (01.06.25-31.05.26) | **753.48** | | **753.48** | **753.48** |
| Cynghorydd Dylan Thomas | Costau Cynghorydd | **156.00** | | **156.00** | **156.00** |

23. Cyflog mis Mai 2025 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Mai 2025<br>35 awr y mis x £18.26 = £639.10<br>12 awr ychwanegol = £219.12=£858.22<br>(*gwaith archwilio mewnol i Cyngor Gwynedd*) | 858.22<br>Llai treth-<br>£171.64 =<br>**£686.58** | **686.58** | **686.58** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Mai 2025<br>£858.22 x 20% = £171.64 | **£171.64** | **171.64** | **171.64** |
| Costau swyddfa Clerc Mai 2025 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr**

24. **Pant y Rhos, Rhoslan** – mae maes carafannau a chytiau pren yno, felly gofynwyd i'r Clerc wneud ymholiadau hefo Adran Gorfodaeth, Cyngor Gwynedd.

25. **Eglwys Llanystumdwy** – derbyniwyd gwybodaeth gan Cyngor Gweinidogaeth Ardal, Bro Eifionydd, yn dweud fod penderfyniad wedi cael ei wneud i gau yr eglwys yn barhaol, a'i fod wedi cau ers 18 mis a bod yr adeilad yn dirywio. **Gofynwyd i'r Clerc ymateb drwy ddatgan siomedigaeth, fod y penderfyniad yma wedi cael ei wneud, ac i holi beth oedd y sefyllfa hefo Eglwysi Llanarmon a Llangybi.**

26. **Amgueddfa Lloyd George** – agoriad swyddogol 28.06.2025 am 10:00 y bore ymlaen.

27. **Cynghorydd Dylan Thomas** – cytuno i dalu'r Lwfans Cynghorydd o £156.00 yn dilyn y cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau **03.07.2025** yn Neuadd Llanystumdwy a drwy Zoom.